**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/MD/0552/15

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

05 Mehefin 2015

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mai ynghylch bwriad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried Rheoliadau drafft Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 ar 11 Mehefin.

Rwy'n awyddus i gefnogi'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y rheoliadau hyn, felly rwy'n ysgrifennu atoch i rannu â'r Pwyllgor brif ganlyniadau ein hymgynghoriad arnynt, ac i amlinellu'r newidiadau allweddol sydd wedi eu gwneud i'r Rheoliadau a'r cod ymarfer ers yr ymgynghoriad hwnnw.

Ymgynghorwyd ar y Rheoliadau rhwng 6 Tachwedd 2014 a 2 Chwefror 2015. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cadarnhau bod ein rhanddeiliaid yn cefnogi'r model cymhwystra newydd yn llawn. Mae'r gefnogaeth hon yn adlewyrchu'r gwaith helaeth a wnaed drwy grwpiau technegol a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ehangach yn ystod y broses o ddatblygu'r Rheoliadau a'r cod ymarfer.

Cafodd newidiadau eu gwneud i'r Rheoliadau a'r cod ymarfer yn sgil y sylwadau a ddaeth i law yn yr ymgynghoriad hwn. Gan ystyried yr hyn fydd yn ganolbwynt i sylw'r Pwyllgor, rwyf wedi cynnwys gyda'r llythyr hwn atodiad sy'n amlinellu'r newidiadau allweddol a wnaed i'r Rheoliadau (sy'n destun gweithdrefn uwchgadarnhaol) a'r cod ymarfer ar gymhwystra a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 8 Mai.

Hoffwn hefyd sôn am y cyd-destun ehangach ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau Cymhwystra wedi'u cynnwys gyda Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015. Cafodd y Rheoliadau Asesu eu gosod gerbron y Cynulliad ar 8 Mai, ynghyd â'r Rheoliadau Cymhwystra. Cafodd y Rheoliadau Cynllunio Gofal eu gosod gerbron y Cynulliad ar 1 Mehefin. Gyda'i gilydd, maent yn llunio cyfres o offerynnau statudol a fydd, o'u hystyried gyda'r codau ymarfer perthnasol, yn cyflwyno newid i'r system gyfan o ddarparu gofal a chymorth yng Nghymru.

I ategu'r Rheoliadau ar ofal a chymorth, lluniwyd Codau Ymarfer statudol. Yn benodol, mae'r Cod ar Ran 4 o'r Ddeddf (Diwallu Anghenion, gan gynnwys dyfarnu cymhwystra a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

chynllunio gofal a chymorth), a’r Cod ar Ran 3 (Asesu Anghenion Unigolion), yn sail i'r fframwaith cymhwystra ac yn cynnwys rhagor o fanylion am y broses i gyd-fynd â'r Rheoliadau. Gyda'i gilydd, mae'r Rheoliadau a’r codau ymarfer yn amlinellu'r broses y bydd awdurdod lleol yn ei chynnal gydag unigolyn i nodi a oes ganddo anghenion o ran gofal a chymorth a sut y caiff ei anghenion eu diwallu.

I gyd-fynd â’n hymgynghoriad, cynhyrchwyd ffilm fer yn dangos y broses asesu a chymhwystra. Mae ar gael drwy'r ddolen hon: [http://www.ccwales.org.uk/learning-resources/](http://www.ccwales.org.uk/learning-resources/) a byddwn yn cynghori aelodau'r pwyllgor i'w gwylio; gan wneud hynny, os oes modd, cyn cyfarfod y pwyllgor neu fel rhan o gyfarfod y pwyllgor sydd i'w gynnal ar 11 Mehefin, i’ch helpu i ystyried. Er mwyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at adroddiad cryno yr ymgynghoriad sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys manylion am yr ymatebion. Ystyriwyd yr awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn fanwl gyda rhanddeiliaid a chânt eu hadlewyrchu yn ein Rheoliadau a'n codau ymarfer diwygiedig.

Er mwyn helpu'r Pwyllgor i ystyried, mae'r canlynol yn ychwanegu at yr wybodaeth am y newidiadau i'r Rheoliadau Cymhwystra a roddir yn atodiad 1, drwy roi crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r fframwaith cyfan ar gyfer asesu, cymhwystra a chynllunio gofal:

**Y Fframwaith Cymhwystra Cenedlaethol**

Gan adeiladu ar yr ymatebion, mae'r cod ymarfer ar Ddiwallu Anghenion wedi ei ddiweddaru i roi mwy o eglurder a manylder am gysondeb wrth ddefnyddio'r meini prawf cymhwystra. Er y bydd y patrwm darparu gwasanaethau yn amrywio o awdurdod i awdurdod, bydd yr hawl i gael gofal a chymorth gan awdurdod lleol, lle nad yw'r gofal a'r cymorth hwnnw ar gael i'r unigolyn fel arall, yn aros yn gyson. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a nodir yn y Ddeddf.

Mae Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol wedi ei ddatblygu i sicrhau cysondeb yn y dull asesu a diwallu anghenion, a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud gyda rhanddeiliaid allweddol yn y cyfnod cyn gweithredu’r Offeryn i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyson ledled Cymru.

Mae'r cod wedi ei ddiwygio er mwyn darparu ar gyfer sefyllfa pan fo asesiad yn barnu na fydd angen yn cael ei ddiwallu gan gynllun gofal a chymorth. Mewn sefyllfa o’r fath, bydd yn ofynnol nodi yn y cofnod asesu sut y mae'r awdurdod lleol yn credu y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn helpu rhywun i gyflawni ei ganlyniadau personol o ran llesiant. Bydd hyn yn rhoi datganiad i ddinasyddion a fydd yn sail i unrhyw achos o anghytuno am y ffordd orau o’u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol o ran llesiant.

**Plant**

Am y tro cyntaf, mae'r Ddeddf yn cyflwyno Rheoliadau sy’n ymwneud ag asesu anghenion plant a barnu a yw’r anghenion hynny’n gymwys i gael eu diwallu gan yr awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau neu'n trefnu i wasanaethau gael eu darparu. Roedd galw am fwy o ganllawiau ar wasanaethau i blant yn y cod, ac eglurhad am statws y Fframwaith presennol ar gyfer Asesu Plant mewn Angen. O ganlyniad, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector rheoleiddiol i roi cyngor ar ailddrafftio'r cod. Mae'r codau ymarfer wedi eu diwygio i adlewyrchu ac integreiddio elfennau allweddol o'r Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd, a byddant yn parhau i gael eu mireinio gyda rhanddeiliaid cyn i'r fersiwn derfynol gael ei gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn yr hydref.

**Gofalwyr**
Pwysleisiodd grwpiau gofalwyr pa mor bwysig yw cael cymorth ymatebol sy'n gweddu i'r newid a all fod yng ngallu gofalwyr i ddiwallu anghenion y rhai y maent yn gofalu amdanynt. Roeddent hefyd yn bryderus y bydd tueddiad i gymryd yn ganiataol y gall gofalwyr ddiwallu anghenion y rhai y maent yn gofalu amdanynt. Ailddrafftiwyd y Rheoliadau a diwygiwyd y codau ymarfer, gyda chyfraniadau gan y Gynghrair Cynhalwyr, i egluro y bydd y cymorth a geir gan eraill yn cael ei ystyried wrth ddyfarnu cymhwystra. Bydd y dull gweithredu newydd hwn yn golygu y bydd angen i asesiadau gydnabod a chofnodi'r cyfraniad a wneir gan ofalwyr i'r hyn a fyddai fel arall yn cael eu hystyried yn anghenion cymwys. Mae'r codau hefyd yn cydnabod y gallai fod sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl i ofalwyr ddarparu gofal, neu eu bod yn amharod i wneud hynny, ac na ddylid cymryd yn ganiataol y bydd gofalwyr yn diwallu anghenion.

**Eiriolaeth**
Mae'r broses asesu bellach yn cyfeirio'n gryfach at eiriolaeth. Gwneir hyn drwy ddiwygio'r cod ymarfer ar asesu a chynnwys canllawiau manwl ar y dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth yn y cod ymarfer ar Ran 10, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

**Nam ar y Synhwyrau**
Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Sense Cymru i ymgorffori prif ofynion canllawiau statudol 2001 ynghylch gofal ar gyfer plant ac oedolion byddar a dall, a ailgyhoeddwyd yn 2014, yn y codau ymarfer[1].

**Cyfathrebu**
Cyfeiriodd grwpiau a oedd yn cynrychioli pobl â nam ar y synhwyrau ac anableddau eraill yn benodol at gydnabod anghenion cyfathrebu fel rhwystr yn y broses asesu. Mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y codau yn ogystal ag mewn diwygiad i'r rheoliadau cymhwystra.

**Gweithlu**
Roedd awdurdodau lleol yn gyffredinol gefnogol o'r model, ond pwysleisiwyd fod angen hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd er mwyn gallu rhoi'r dull gweithredu ar waith mewn ffordd gyson.

Comisiynwyd Cyngor Gofal Cymru i arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth genedlaethol ar ddysgu a datblygu. Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda'r fforwm partneriaeth cenedlaethol, y grŵp arwain a'r panel dinasyddion i gefnogi'r newid hwn, ac yn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn parhau i fod yn ganolog i'n rhaglen newid.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau sy'n gyfrifol, i sicrhau'r trawsnewid sy'n ofynnol. Rydym wedi gwneud cryn ymdrech i ymgysylltu â'r partneriaid hyn, felly roedd yn galonogol gweld Sue Evans, Llywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn dweud yn *Community Care Online:* "...we have contributed to the development of this legislation and are committed to making it a success". Yn yr un modd, rwy'n croesawu'r gefnogaeth a fynegwyd gan Wayne Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Sense Cymru, i'r ddarpariaeth yn y Codau Ymarfer ynghylch gofynion canllawiau statudol 2001 ar ofal i blant ac oedolion byddar a dall. Dywedodd: "...we know that many deafblind


[1] Mae'r cyfeiriadau at "godau ymarfer" yn ymwneud â'r Cod ar Ran 4 o'r Ddeddf (Diwallu Anghenion), a'r Cod ar Ran 3 (Asesu Anghenion Unigolion)

people in Wales, both adults and children, struggle to get the specialist assessments and support they need. These new Codes are a step forward in making that a thing of the past.”

Rwy’n hyderus y bydd y fframwaith cymhwystra newydd a amlinellir yn y Rheoliadau a’r cod ymarfer yn cynnig proses fwy ymatebol a theg sy’n ymgysylltu’n well â phobl, ar gyfer diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Rwy’n hyderus hefyd y bydd y broses yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’r bobl sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae’r fframwaith wedi’i osod yng nghyd-destun ehangach y system gofal a chymorth, sy’n cynnwys cynllunio gwasanaethau’n well drwy’r asesiad o anghenion y boblogaeth a gwaith partneriaeth gwell, ynghyd â mynediad gwell at wasanaethau atal problemau ac ymyrraeth gynnar, a gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth cryfach. Mae’n rhaid i ni feddwl am gymhwystra fel un elfen, er yn elfen ganolog, o’r newidiadau hanfodol y bydd y Ddeddf hon yn eu gwneud i’r system gofal a chymorth. Mae’n rhaid i ni feddwl am hyn fel system newydd yn hytrach nag addasiad o’r system gyfredol.

Rwy’n gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i’r Pwyllgor. Rwy’n awyddus i helpu’r Pwyllgor i graffu ar y ddeddfwriaeth allweddol hon. Rhowch wybod os gallaf wneud unrhyw beth pellach i’ch helpu.

Cofion cynnes,



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Atodiad 1**

**CYMHWYSTRA**

**Ymysg y newidiadau i’r rheoliadau ar gymhwystra roedd:**

1. Diwygio’r geiriad sy’n sôn am y rhai sy’n gofalu am blentyn i ‘personau eraill mewn rôl rhiant’, er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol;
2. Dileu’r cyfeiriad at ‘ganlyniadau penodedig’ er mwyn osgoi dryswch rhyngddynt a’r canlyniadau o ran llesiant personol;
3. Dileu’r term ‘sylfaenol’ mewn perthynas â hunanofal.
4. Ychwanegu ‘gallu i gyfathrebu’ fel rhywbeth y gellir ei gyfrif yn angen cymwys;
5. Ychwanegu nad yw person yn ‘gallu diwallu angen’ pe bai gwneud hynny:
    - Yn achosi poen, gorbryder neu drallod sylweddol i’r person hwnnw;
    - Yn peryglu neu’n debyg o beryglu iechyd neu ddiogelwch y person hwnnw neu berson arall;
    - Yn cymryd amser sylweddol hwy i’r person hwnnw na’r hyn y byddid yn ei ddisgwyl fel rheol.
6. Diwygio’r rheoliadau i gael gwared ar groesddweud ymddangosiadol rhwng rheoliadau sy’n ymwneud â chymhwystra anghenion a darpariaeth gofal gan ofalwr.

**Roedd y newidiadau i’r Cod Ymarfer ar Gymhwystra yn cynnwys:**

1. Diwygio’r geiriad i sicrhau gwell eglurder a manylder ynglŷn â chymhwyso’r meini prawf cymhwystra.
2. Ei gwneud yn eglur bod y broses ar gyfer penderfynu ar gymhwystra yn rhoi lle i farn broffesiynol ac yn helpu i sicrhau cysondeb o ran darpariaeth;
3. Cryfhau’r geiriad er mwyn sicrhau y bydd gan y rhai nad ydynt yn gallu rheoli eu gofal eu hunain yr hawl i gael gofal a chymorth a reolir ac a ddarparir ar eu cyfer;
4. Rhoi mwy o eglurder a manylder o ran y broses o gymhwyso’r dyfarniad cymhwystra, gan gynnwys yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol.
5. Ychwanegu y bydd unigolyn, ar ôl cael ei asesu, yn cael datganiad gan yr awdurdod lleol ynghylch y ffordd orau o ddiwallu anghenion llesiant yr unigolyn hwnnw. Gallai’r unigolyn ddefnyddio’r datganiad hwnnw pe bai’n anghytuno â chanlyniadau’r asesiad/dyfarniad cymhwystra.
6. Ei gwneud yn eglur, yn achos unigolion sydd angen gofal a chymorth, y bydd y cymorth a gânt gan eraill yn cael ei ystyried yn y dyfarniad cymhwystra.
7. Cael gwared ar iaith a therminoleg sy’n gysylltiedig â’r hen ddeddfwriaeth a’r hen ddiwylliant, a chynnwys cyfeiriadau mwy amlwg at y model cymdeithasol o anabledd, hynny yw cyfeiriad at *Transforming Social Services: Towards an Enabling Wales Toolkit.*